CYNGOR CYMUNED LLANENGAN

Clerc – Einir Wyn – *Clerk*
Fferm Cae Du, Aber-soch, PWLLHELI, Gwynedd. LL53 7HT
Ffôn: (01758) 712434
E-bost: clerc@cyngorcymunedllanengan.cymru
Gwefan: www.cyngorcymunedllanengan.cymru

Mehefin 5ed, 2019

Annwyl Aelod,

Gwysir chi i fod yn bresennol yng Nghyfarfod Misol y Cyngor **nos Fercher, Mehefin 12fed, 2019** yng Nghanolfan Llanengan am saith o'r gloch.

RHAGLEN

1. Croeso ac Ymddiheuriadau
2. Datgan Buddiant Personol
3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)
4. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol – Mai 8fed, 2019
5. Ceisiadau Cynllunio (gweler rhestr drosodd)
6. **Materion yn Codi o'r Cofnodion**:
   i) 4a) Toiledau Cyhoeddus
   ii) 11. Gohebiaeth: b) Arloesi Gwynedd Wledig – Newyddlen mis Ebrill
   iii) 11. Gohebiaeth: c) Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Mickey's Boatyard, Marchros
   iv) 11. Gohebiaeth: d) Wyn Williams – Menter Iaith
7. **Mynwent** – Prisiau Claddu
8. **Caeau Chwarae –** Paentio'r Offer; Trac Beicio Mynytho; Archwiliad Iechyd a Diogelwch; Prisiau Goliau; Gwerthu Ceir ar Lain y Pentref
9. **Cyfrifon –** Archwiliad Ariannol Mewnol ac Allanol 2018 – 2019; Penodi Archwiliwr Mewnol 2018 – 2019; Meinciau Sarn Bach a Bwlchtocyn;
10. **Materion Cynllunio** – Materion yn y Gymuned/Ymholiadau/Gorfodaeth; Cytiau Glan Môr;
11. **Materion Priffyrdd a Bwrdeistrefol** – Bin Baw Ci ym Marchros; Golau Stryd Stad Sant Tudwal, Mynytho; Parcio ym Mhorth Neigwl; Rhybuddion Cau Strydoedd yn Aber-soch – Mehefin 1af a'r 3ydd; Rhaglen Waith mis Mehefin;
12. **Materion Hawliau Tramwy** – Torri'r Llwybrau (Tendr); Llwybr y Morwyr (Rhif 42 a 51); Torri Coed ar Lwybr Ceffyl ger Penfôr, Bwlchotcyn
13. **Gohebiaeth**:

a) ***Un Llais Cymru (ULlC)*** – Model Brotocol ar Gyfer Datrysiadau Anffurfiol; Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor; Cynhadledd Arfer Arloesol; Modylau Dysgu Ar-lein Sylfaenol; Cymru Ein Dyfodol – Sgwrs Genedlaethol
b) Adran Addysg – Panel Apêl Mynediad a Phanel Apêl Gwahardd Disgyblion
c) O Ddrws i Ddrws – Poster Hysbysebu'r Gwasanaeth Cludo i'r Feddygfa

14. Dyfarniadau Cynllunio
15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau
16. Dyddiad y Cyfarfod nesaf – nos Fercher, Gorffennaf 17eg, 2019

Yn gywir,

Einir Wyn

EINIR WYN
Clerc

Amg.

CEISIADAU CYNLLUNIO I'W TRAFOD YNG NGHYFARFOD MIS MEHEFIN

Anfonwyd sylwadau yr Is-bwyllgor Cynllunio (Cadeirydd, Is-gadeirydd ac aelod o bob Ward) ar y pum cais cyntaf cyn y cyfarfod.

RHIF	RHIF Y CAIS	DISGRIFIAD
1	*C19/0394/39/LL*	*Estyniad deulawr gromen ochr - 25 Tan y Gaer, Aber-soch* - ***Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn orddatblygiad o fyngalo a fuasai'n goredrych a chreu cynsail i eraill yn y stad***
2	*C19/0404/39/LL*	***Cynllun Diwygiedig –*** *Estyniad ochr a chefn, ffenestri gromen a tho – Gwyndy, Cilan* - ***Gwrthwynebir oherwydd nad yw'n gweddu â'r tai o'i amgylch. Derbyniwyd dyfarniad y caniatawyd ef ag amodau erbyn hyn.***
3	*C19/0405/39/LL*	***Cynllun Diwygiedig –*** *Modurdy a storfa at ochr y tŷ – 4 Cae Du, Aber-soch* - ***Cefnogir ar yr amod mai modurdy a storfa'n unig fyddan nhw. Mynegwyd hefyd y gosodwyd amod ar y byngalos na ddylid adeiladu modurdy wrth eu gwerthu'n ôl yn y chwedegau***
4	*C19/0431/39/LL*	*Estyniad cefn – Hafod, Mynytho* ***– Cefnogir, gan nad yw'n effeithio ar neb***
5	*C19/0451/39/LL*	*Estyniad llawr cyntaf* ***–*** *Trem y Borth, Bwlchtocyn* ***– Cefnogir***
6	C19/0450/39/LL	Cyfnewid to fflat am un brig llechi, ynghyd ag adeiladu estyniad deulawr i'r ochr – **Pendalar, Lôn Wilis, Mynytho**
7	C19/0482/39/LL	Modurdy a storfa – **Gwynfa, Lôn Rhoslyn, Aber-soch**
8	C19/0519/39/LL	Adeiladu tŷ annedd (dyluniad diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd yng nghais 2/19/69A – **Tir ger Gilfach Goed, Lôn Pen Cei, Aber-soch**